



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Gorff/Awst/
Medi 2014
Rhifyn 209

Oedfaon y Sul

6 Gorff - Bore: **Gweinidog** (Cymundeb); Hwyr (4pm) - **uno yn Salem**

13 Gorff - Bore a Hwyr: **Y Parchg Hugh Pritchard**

20 Gorff - Bore a Hwyr: **Gweinidog**

27 Gorff - Bore a Hwyr: **Y Parchg John Owen, Rhuthun**

3 Awst - Bore a Hwyr: **Uno yn Salem**

10 Awst - Bore a Hwyr: **Uno yn Salem**

17 Awst - Bore a Hwyr: **Uno yn Salem**

24 Awst - Bore a Hwyr: **Y Parchg Robert Parry, Wrecsam**

31 Awst - Bore a Hwyr: **Y Parchg Marcus W. Robinson**

7 Medi - Bore: **Gweinidog** (Cymundeb); Hwyr: **Uno yn Salem** (4pm)
Bydd Bwrdd Gwerthu Masnach Deg yn y cyntedd (bore)

14 Medi - Bore a Hwyr: **Mr Edward Morus Jones**
Derbynnir cyfraniadau i'r Bocs Bwyd

21 Medi - Bore a Hwyr: **Sul Undebol y Cyngor Eglwysi yn Ebeneser**
Derbynnir cyfraniadau i'r Bocs Bwyd

28 Medi - Bore a Hwyr: **Y Parchg Dewi T. Morris, Porthmadog**

www.henaduriaetharfon.org



Digwyddiadau Mis Medi

Nos Lun 8 Medi (7pm): **Cymdeithas Chwiorydd Seilo**. Sgwrs gan Miss Naomi Jones ar ddatblygiad yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn

Bore SGwener 12 Medi: **Stondin gacennau ar y Maes** (9am—12pm)

Dydd Mercher i Ddydd Gwener 17 - 19 Medi: Ymweliad **gweinidogion o Fryniau Casia**

Taro Mewn - bob bore Mawrth o'r 9fed o Fedi yn Salem (10 -11am)
Y Gell Weddi - bob dydd Iau (10.30am)

Am Eiliad

Onid oedd yr hyn a ddigwyddodd i'r awyren MH17 uwchben yr Ukraine yn ddiweddar pryd y collwyd 298 o fywydau ar amrantiad yn erchyll? Teuluoedd wedi edrych ymlaen at gyfnod o wyliau dramor oedd nifer o'r teithwyr ond daeth y cyfan i ben ar amrantiad pan ffrwydrodd yr awyren gan adael dim byd o'i hôl ond darnau yma ac acw ar hyd a lled y caeau.

Yn ôl pob tebyg, taflegryn fu achos y ffrwydriad ac erbyn hyn mae sawl ymchwiliad ar droed i geisio darganfod pwy fu'n gyfrifol am y fath weithred farbaraid.

Mae'r byd yn ferw gwyllt o gasineb a thrais a theuluoedd mewn sawl rhan o'r byd mewn gwewyr yn arswydo rhag y bomiau a'r gynnu, ac yn gyfan gwbl ddiameddiffyn wrth i'w cartrefi gael eu dinistrio a hwythau'n gorfod ffoi rhag effaith y gyflafan. Mae'r lluniau a welir ar y rhaglenni newyddion ddydd ar ôl dydd yn ddychryn a'r sefyllfa rhwng Israel a Phalesteina ac oddi mewn i Syria ac Irac yn argyfyngus. Cofiw'n eiriau Waldo yn ei gerdd Brawdoliaeth:

*Pa werth na thry yn wawd
Pan laddo dyn ei frawd?*

Bûm yn pori yn Llyfr y Datguddiad yn ddiweddar a rhyfeddu at y disgrifiadau o Baradwys a geir ynddo. Llenyddiaeth Apocalyptig sydd yma yn disgrifio 'diwedd amser' pan fydd y pethau presennol wedi mynd heibio a 'Duw oll yn oll.' A ninnau'n byw mewn cyfnod mor ryfelgar a chymaint o ddioddefaint ym mhobman, mae'n anodd dychmygu'r fath sefyllfa. Ac ofer yn ôl yr ysgrythur hefyd yw ceisio rhagdybio'r diwedd, er i amryw o gredinwyr ar hyd y canrifoedd geisio prysuro dydd barn drwy amrywiol weithgaredd. Na, pwysicach o lawer yn y Beibl yw ceisio gwella amgylchiadau heddiw.

Byddwn yn gweddi'o'r geiriau hyn o eiddo Iesu Grist yn aml, - 'deled dy deyrnas; gwnele'r dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef' (Mathew 6:10). Ac onid dyna'n nôd ni fel dilynwyr yr Arglwydd Iesu Grist yn y byd? Sef ymuno yn ei waith o adfer byd a bywyd ar ddelw teyrnas nefoedd. Yn sicr does dim rhaid i ni ddisgwyl hyd nes daw'r cyfan i ben cyn cychwyn y broses o greu nefoedd ar y

ddaear. Efallai mai prin fydd ein dylanwad ar y sefyllfaoedd argyfyngus sydd yn y byd ar hyn o bryd, ond yn sicr gallwn fel Cristnogion fynegi barn a sefyll yn gadarn dros yr hyn sy'n wir ac yn gyfiawn oddi mewn i'n cymunedau a thu draw. Emyn y Perganiedydd ddaw i'r cof:

O pam na chaf fi ddechrau nawr
fy nefoedd yn y byd,
a threulio 'mywyd mewn mwynhad
o'th gariad gwerthfawr drud.
(Cff. 295)

Gwenda Richards

Coffâd

Emyr Parry, Tre'r Ceiri, 5 Llwyn Ceirios,
Ffirdd Bethel

Gyda thristwch yr ydym yn coffau Emyr yn y rhifyn hwn o'r Bont oherwydd yn y cyfnod byr y bu'n aelod yn Seilo bu ei gyfraniad yn amhrisiadwy. Bu'n gymwynaswr parod gan ymroi yn ddiflino i waith yr eglwys. Roedd yn sgwrsiwr byrlymus ac wrth ei fodd yn cymdeithasu. Roedd hefyd yn Gymro i'r carn ac yn gefnogol i'r sefydliadau a roddodd i Gymru ei hunaniaeth a'i hunigrywiaeth. Gweithiodd yn ddiflino dros sawl elusen gan roi yn hael o'i amser i gefnogi'r gwerthoedd gorau mewn cymdeithas. Roedd yn ffrind i gymaint ohonom a diolchwn i Dduw am y fraint o gael ei adnabod. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Gweno yn ei phrofedigaeth o golli priod a ffrind gorau.

Diolch

Dymuna Gweno ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati gan y Parchedig Gwenda Richards, blaenoriaid ac aelodau capel Seilo yn ei phrofedigaeth fawr o golli Emyr. Bu'r gefnogaeth yn gysur ac yn gymorth mawr iddi.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlan yn ddiffuant â **Mr Glyn Evans**, 43 Cae Mur, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd yn ddiweddar; â **Mrs. Eifiona Thomas**, Bryn Derw, Llanfaglan, wedi iddi golli ei chwaer ac â **Dr Gareth Parry Jones**, Bryn Eglwys, Caethro sydd wedi colli ei fam.

Dymunwn Dduw yn gysur ac yn gynhaliaeth i'r teuluoedd yn eu hiraeth a'u galar.

Gwaeledd

Bu sawl aelod o'r eglwys yn wael yn ystod y mis. Anfonwn ein dymuniadau da am wellhâd buan atynt i gyd. Derbyniodd **Mrs Rita Williams**, Gwynle, 77 Cae Gwyn, lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, a da yw deall ei bod yn gwella erbyn hyn, fel y mae **Mrs Janice Jones**, Bryn Teg, Lôn Ysgubor Wen, yn dilyn ei thriniaeth yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Bu **Mrs Mary Land**, Gorwel Môn, Ffordd Bethel, yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Eryri, a dyna hefyd fu hanes **Mrs Margaret Jones**, 45 Glan Ffynnon, Llanrug, **Mrs Cathryn Jones**, Tegfan, Lôn Cae Garw, Rhosbodrual a **Mrs Mair Parry Owen**, 3 Llys Gwyn. Treuliodd **Mrs Catherine Jones**, Gwendraeth, Llys yr Orsedd, gynt, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd fel y gwnaeth **Mr. Gwynfor Roberts**, Caerlyr, Ffordd Hampton. Yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, mae **Miss Gwyneth Owen**, Rhiw, Lôn Ddewi, yn treulio cyfnod byr yng Nghartref Cerrig yr Afon. Llawenydd yw gweld bod **Mr Wil Lloyd Davies**, Llanddwyn, 10 Ffordd Menai, wedi dychwelyd adref yn dilyn cyfnod hir yn yr ysbyty. Mae **Mrs Kitty Roberts** yn ôl yn Willow Hall yn dilyn cyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn meddwl am **Mr Harry Jones**, Bod Hyfryd, Ffordd y Gogledd, sydd yn parhau yn Ysbyty Eryri, ond yn disgwyl cael mynd adref yn y dyfodol agos.

Dau Lyfr.

Llongyfarchiadau calonnog i **Mr Hywel W. Roberts**, Rhedynog, Ffordd Bethel ar gyhoeddi llyfr ar hanes Thomas Williams, Penmachno. Cyhoeddir 'Uncle Tom At War' gan Wasg Carreg Gwalch. Pris £8. Llongyfarchiadau hefyd i **Llyr Gwyn Lewis**, Llys Cerdd, Cae Gwyn (gynt) ar gyhoeddi ei nofel gyntaf 'Rhyw Flodau Rhyfel'. Cyhoeddir gan Wasg Y Lolfa. Pris £8.95.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r **Parchedig Ddr Elwyn Richards** ar gael ei ethol yn Lywydd Etholedig Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Bydd yn esgyn i Gadair y Gymanfa yng Gorffennaf 2015.

Bedydd

Yn dilyn yr oedfa fore Sul 20 Gorffennaf daeth cynulleidfa ynghyd i fod yn dystion i fedydd **Emma Lisi**, merch fach Cynan Wyn a Rebecca Ann Jones, 26 Glan Seiont. Llongyfarchwn y teulu a dymunwn fendith ar eu haelwyd.

Ymwelwyr o Fryniau Casia

Canol mis Medi eleni bydd wyth o weinidogion o Fryniau Casia yn ymweld â Chymru. Byddant yng Nghaernarfon am ddwy noson, 17 - 19 Medi. Apelir yn garedig am lety iddynt dros y cyfnod byr hwn. Byddant angen gwely, brecwast a chinio nos am ddeuddydd. Cysyllter â'r gweinidog am ragor o fanylion.

Carai'r gweinidog gael gwybod cyn gynted â phosib pwy o blith aelodau'r eglwys fyddai'n barod i gynnig llety. Mae pobl y Bryniau yn hynod o ddymunol a'n braint yw cael eu cwmni.

Dosbarth Derbyn

Mae'r gweinidog yn bwriadu cynnal Dosbarth Derbyn i ieuentid yr eglwys cyn diwedd y flwyddyn. Mae'n awyddus i gyfarfod â'r ieuentid sy'n awyddus i gael eu Derbyn yn Seilo am 4.30pm, nos Lun 15fed oFedi.

Bwrdd Gwerthu ar y Maes Bore Gwener 12 Medi

Apelir am gacennau, cynnyrch cartref a phlanhigion ar gyfer y bwrdd gwerthu. Gellir dod â'r nwyddau naill ai i'r theatr rhwng 6 a 7 o'r gloch nos Wener 11 Medi neu i'r Maes rhwng 9 a 9.30 bore Sadwrn. Diolchir am y gefnogaeth arferol. Yr elw at Gymdeithas y clefyd Alzheimer ac at waith yr eglwys yma yn Seilo.

Blodau'r Cysegr

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am y blodau yn Seilo yn ystod Gorffennaf, Awst a Medi.

Gorffennaf: **Miss Dorothy Williams** (6); **Mrs Wendon Davies** a **Miss Helen Fôn Davies** (13); **Mrs Gwen Davidson Norrie** (20); **Mrs Verona Jones** (27)

Awst: **Mrs Ann Jones** (24); **Mae angen trefnu ar gyfer 31 Awst.**

Medi: **Mrs Margaret Morris Jones** a **Mrs Edwina Morris** (7); **Mrs Rhoda Jones** (14); **Mrs Mair Evans** (21); **Mrs Ceri Humphreys** (28)

Noson Goffi

"Noson Goffi" oedd ar y tocyn, ond byddai Ffair Haf neu Sbri Seilo wedi bod yn well enw ar y bwrlwm o weithgaredd difyr, ac amrywiaeth lliwgar o stondinau - rhywbeth at ddant pawb- yn Theatr Seilo, nos Wener, 20 Mehefin.

Y tu allan, ar y darn caled eang sydd yng nghefn y theatr, a hynny yn llygad yr haul, roedd cyfle i fwynhau paned a sgwrs tra'n gwyllo'r hen blant yn cael hwyl yn pysgota am hwyaden, neu'n ennill gwobr dda bob tro ar y stondin tombola. Na, doedd neb yn mynd adra'n waglaw na'n cael y siom o gollu yn Ffair Seilo! Allan hefyd oedd y stondin arddio oedd yng ngofal rhai o'r dynion, a gwerthwyd potiau mawr, gorlawn o flodau lliwgar hardd am brisiau rhesymol iawn. Do wir, cafodd sawl un fargen werth chweil. (Wn i ddim ai gwir y si bod meddyg lleol sydd newydd ymddeol wedi cael cynnig swydd Sadwrn yn Fron Goch yn dilyn ei lwyddiant gyda'i botiau blodau!)

Ar lwyfan y Theatr roedd stondinau amrywiol yn cynnig bob math o nwyddau o'r safon uchaf, a'r cwsmeriaid bodlon yn brysur yn llenwi'u bagiau tra'n gwagio'u pwrs, ac yn mwynhau bob munud. Does ryfedd, felly, i ni gael noson lwyddiannus eto eleni.

Mae elw'r noson hyd yn hyn dros £1,410 a rwyf yn falch o gyhoeddi bod rhoddion hael yn dal i lifo i mewn i'r coffrau. Fel y gwyddoch, bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Eglwys Seilo a Chymdeithas y Clefyd Alzheimer.

Ar ran Pwyllgor Gwaith y Merched a fu mor ddiwyd yn trefnu'r cyfan, hoffwn ddiolch i bawb a gefnogodd yr ymdrech mewn unrhyw ffordd. Diolch o galon i chi i gyd!

Edwina Morgan

Trip yr Ysgol Sul

Dydd Sadwrn 14 Mehefin aeth criw o 36 o blant o bob oed a rhieni ar drip blynyddol yr

Ysgol Sul i Barc Safari Knowsley ger Lerpwl. Cychwyn o Gaernarfon am 9.30 y bore a chyrraedd Knowsley 11.15 a chael seibiant byr cyn cychwyn o gwmpas y Parc. Roedd yr haul un tywynnu gydol y dydd.

I mewn trwy'r giatiau mawr yn y bus a'r plant yn llawn cyffro. Symudem yn araf iawn er mwyn cael golwg dda ar yr anifeiliaid. Gwelsom y llewod yn glir er eu bod yn cysgodi o dan y coed. Wedyn daethom at y mwnciod. Wel sôn am hwyl wrth eu gwyllo yn rhedeg a neidio o un car i'r llall, hefyd yn brysur yn tynnu weipars ac eistedd ar y ceir i gael mynd am dro. Roedd y plant wrth eu boddau ac roedd yna hen chwerthin. Ymlaen wedyn yn araf trwy weddill y Parc a gweld y ceirw, eliffantod, giraff ac amryw o anifeiliaid ac adar eraill. Roeddem bellach wedi gorffen mynd o gwmpas ac yn amser cinio. Roedd gweddill y pnawn yn rhoi digon o amser rhydd i fynd ar reids y ffair neu am dro. Casglodd pawb ynghyd erbyn tri o'r gloch er mwyn mynd i weld y sioe morfilod a chafwyd sioe dda. Yn dilyn y sioe cael paned cyn ei throï hi am adref.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn a phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch i bawb am gefnogi'r trip eleni ac am i ni gael diwrnod i'w gofio

Anti Ann

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Medi 20 fed

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435

Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865